O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 259 (Cy. 53)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sageston, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

Made	*3 Mawrth 2025*
Coming into force	*7 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A477, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 82(2) ac adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Sageston, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

Dileu Cyfyngiadau

3. Bydd y darn o'r gefnffordd sy'n cynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Sageston yn Sageston yn Sir Benfro yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 3 Mawrth 2025

Tim Barnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru